

<b>Presennol:</b>	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
<b>Staff S4C:</b>	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) – eitem 7
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Adleoli a Phrosiectau) - eitem 6
	Steve Cowin	(Prif Swyddog Technegol) - eitem 6
	Rhys Bevan	(Rheolwr Prosiectau) - eitem 6
	Steve Thomas	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Gwybodaeth) – eitem 12
	Catrin Hughes Roberts	(Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 12
	Jane Felix Richards	(Pennaeth Hyrwyddo a Marchnata) – eitem 12
<b>Ymddiheuriadau</b>	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)

1. **Croeso a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 386** (a gynhaliwyd ar 11.04.15)

Cyflwynwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod rhif 386.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

Cyfeiriwyd at bwynt 5 – a nodwyd fod cyfarfod y Pwyllgor Craffu wedi ei ohirio nes y bydd trafodaethau pellach wedi eu cynnal gyda'r partneriaid allanol.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**[Crynodeb:** Cyfeiriodd at ambell i gyfarfod gydag unigolion o'r sector. Cafwyd cyfle i drafod materion gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu'r sector, y berthynas

gydag S4C a'r prosesau ar gyfer cyflwyno adborth am raglenni i'r cwmnïau cynhyrchu.]

#### 5. **Ariannu Digonol a pharatoadau ar gyfer yr Adolygiad Gwariant**

Cyfeiriodd HJ at drafodaethau diweddar gyda DCMS yn ymwneud â pharatoadau ar gyfer yr Adolygiad Gwariant arfaethedig. Esboniwyd ei fod ef ac IHJ wedi ysgrifennu i'r DCMS gan esbonio cymhlethdodau elfennau ariannu S4C ac amserlen y prosesau.

**[Crynodeb :** Nodwyd cyd-destun yr adolygiad gwariant ac oblygiadau'r cymhlethdodau ariannu i S4C wrth ymateb i gwestiynau gan y DCMS.]

Cyflwynwyd amlinelliad o gynllun ariannol yn seiliedig ar yr uchod a chafwyd trafodaeth am y cynllun. Yn dilyn y drafodaeth penderfynwyd cymeradwyo'r amlinelliad ariannol fel sail i'r drafodaeth gyda DCMS ond gan addasu'r rhagamcan ar gyfer y Strategaeth Gynnwys.

Penderfynwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn cyflwyno ymateb S4C i'r DCMS ac yn parhau i drafod proses yr Adolygiad Gwariant a'r angen i ystyried holl elfennau ariannu S4C gyda'r swyddogion.

#### 6. **Prosiectau Cydleoli ac Adleoli**

Croesawyd GLL, SC a RhB i'r cyfarfod. Cyflwynodd GLL ac EM ddiweddariad am waith y prosiectau.

##### **Prosiect Cydleoli**

**[Crynodeb :** Mae cyfreithwyr S4C yn ystyried y drafft cychwynnol o'r dogfennau cyfreithiol a dderbyniwyd gan BBC Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o elfennau'r prosiect sef systemau technoleg swyddfa S4C, staffio, yr archif a chyfathrebu.]

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu [ar ôl dod i ddealltwriaeth â'r BBC]. Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Pwyllgor gymeradwyo arwyddo'r ymrwymiad cyfreithiol i'r prosiect cydleoli ond y dylid rhoi gwahoddiad i holl aelodau'r Awdurdod fynychu'r cyfarfod.

##### **Prosiect Adleoli**

Cyfeiriwyd at waith y prosiect Adleoli a nodwyd fod y gwaith cynllunio yn parhau yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad.

#### 7. **Adroddiad Blynyddol 2014–15**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr Adroddiad Blynyddol drafft ac esboniodd y byddai ef ac AE yn cyflwyno asesiad perfformiad yr Awdurdod i Ymddiriedolaeth y BBC ar 21 Mai. Nodwyd bod nifer o fanylion yn y drafft i'w cadarnhau gan gynnwys ffigyrau cyrhaeddiad cyfansawdd a ffigyrau defnydd ar-lein fel canran o'r holl wyllo.

**[Crynodeb :** Trafodwyd rhai elfennau o'r adroddiad gan gynnwys cyflwyniad y Cadeirydd a barn yr Awdurdod am berfformiad meintiol ac ansoddol y sianel.]

Yn dilyn y drafodaeth cymeradwyodd yr Awdurdod yr Adroddiad Blynyddol, gan ddirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd ddiweddar a chwblhau'r ffeithiau sy'n weddill ac iddo ef ac AE gyflwyno asesiad perfformiad yn seiliedig ar yr Adroddiad i Ymddiriedolaeth y BBC. Nodwyd y byddai'r drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym Mehefin er gwybodaeth.

#### 8. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Cyflwynodd HHE adroddiad ar lafar o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd cyn cyfarfod yr Awdurdod. Nodwyd bod holl aelodau'r Awdurdod wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod er mwyn ystyried Datganiad Ariannol drafft 2014-15 a derbyn adroddiad yr archwilwyr allanol, Grant Thornton, ar y datganiad. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol, PWC.

Esboniodd HHE fod y Pwyllgor wedi argymhell cyflwyno'r Datganiad Ariannol i'r Awdurdod ar gyfer ei gymeradwyaeth. Cyflwynwyd y Datganiad Ariannol ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod.

#### 9. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd AE gofnodion drafft y Pwyllgor er gwybodaeth. Nodwyd bod y cofnodion yn cyfeirio at nifer o ddogfennau atodol megis cyflwyniadau genres gan y tîm comisiynu a phenderfynwyd y dylid cylchredeg yr adroddiadau hyn gyda'r cofnodion drafft o hyn allan.

#### 10. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

Cyflwynodd CB adroddiad cynnydd ar waith y Bwrdd Masnachol a nodwyd y byddai cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Masnachol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod fis nesaf.

**[Crynodeb :** Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar fater masnachol.]

#### 11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth**

Cyflwynodd MWJ gofnodion drafft y Pwyllgor er gwybodaeth a nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf.

#### 12. **Cyflwyniad Cyfathrebu**

Croesawyd ST, CHR a JFR i'r cyfarfod. Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer Chwarter 1 2015-16.

**[Crynodeb :** Trafodwyd y penderfyniad i ganolbwyntio ar nifer o gyfresi ac uchelfannau ar ddechrau chwarter 3 a'r her o flaenoriaethu ymgyrchoedd marchnata mewn cyfnod lle mae nifer o uchafbwyntiau. Gall greu anawsterau o ran rhoi sylw teilwng i bob rhaglen.]

Diolchwyd i ST, CHR a JFR am y cyflwyniad.



13. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**  
Penderfynwyd gohirio trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio tan gyfarfod fis Mehefin.
14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**  
Cyflwynwyd adroddiad y Wifren ac Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth.
15. **Rhaglen Waith 2015 – 16**  
Cyflwynwyd drafft diweddaraf Rhaglen Waith 2015-16 i'r Aelodau er gwybodaeth.
16. **Unrhyw Fater Arall**  
Ni thrafodwyd unrhyw fater eraill.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Iau 11eg Mehefin 2015 yng Nghaerdydd.